# Diogelu'r wy - Cynllun gweithgaredd

## Disgrifiad
Mae'n rhaid i'r dysgwyr wneud penderfyniadau prynu i ddiogelu wy mewn modd creadigol cyn ei daflu ar y maes chwarae.

## Paratoi
Rhannwch y dosbarth yn grwpiau (timau) o 3-5 dysgwr.

Casglwch yr adnoddau neu gofynnwch i'r dosbarth ddod ag un o'r eitemau yr un i mewn (wedi'u defnyddio ond yn lân).

Gosodwch stondinau ar gyfer y gwahanol fathau o eitemau – gludyddion, papurau, plastigau, cynwysyddion. Rhowch brisiau ar yr eitemau. Pennwch y prisiau rhwng £10 a £30.

Argraffwch a thorrwch y cardiau myfyrio allan

## Adnoddau
Wyau - 2 i bob tîm

Gludyddion – e.e. tâp gludiog, tac glas neu gwyn, clipiau papur

Papurau – e.e. papurau newydd, deunydd pecynnu

Plastigau – bagiau siopa wedi'u defnyddio, deunydd pecynnu

Cynwysyddion – blychau cardfwrdd, blychau plastig

## Geirfa
Gwerth, pris, ffeirio, cyllideb

### Cyflwyniad/cyd-destun
Rhannwch y dosbarth yn grwpiau o 3-5 dysgwr.
Gosodwch y cyd-destun. Tynnwch sylw at bwysigrwydd gwneud penderfyniadau prynu da, gan bwyso a mesur cost, nifer a safonau. Disgrifiwch gyllidebau i'r dysgwyr a phwysigrwydd sicrhau bod gennym ni ddigon o arian ar gyfer yr hyn sydd ei angen arnom cyn i ni brynu pethau rydym ni eu heisiau. Caniatewch i'r dysgwyr enwi eu timau.

Ysgrifennwch enw pob tîm mewn colofn ar y bwrdd. Ysgrifennwch £100 o dan enw pob tîm.

Eglurwch yr her.

Bydd pob tîm yn cael 2 wy i'w diogelu.

Bydd ganddyn nhw £100 damcaniaethol i'w wario ar yr eitemau a osodir ar bob stondin.

Bydd pob tîm yn defnyddio'r eitemau maen nhw'n eu prynu i ddiogelu eu hwyau cyn eu taflu/cicio ar y maes chwarae.

Y tîm â'r mwyaf o wyau cyfan a'r mwyaf o'r arian yn weddill, fydd yr enillydd.

Disgrifiwch y dasg dylunio a chyllideb (isod). Rhowch strwythur i'r dysgwyr o sut i gyflwyno a chynllunio eu dyluniadau a'u cyllidebau.

Amser 15-30 munud

### Dylunio a chyllideb
Gofynnwch i'r timau dynnu llun a labelu eu syniadau dylunio. Anogwch y myfyrwyr i archwilio atebion ymarferol i ddiogelu'r wyau ac atebion creadigol i roi hunaniaeth tîm i'w dyluniadau a'u gwneud yn unigryw. Dylai'r timau gytuno ar ddull gweithredu a phenderfynu ar y deunyddiau y bydd eu hangen arnynt. Dylai'r timau ystyried uchafswm cyllideb ar gyfer pob eitem a chynlluniau wrth gefn os na fydd eitemau penodol ar gael.

Amser 20-30 munud

### Agor y stondinau
Bydd un dysgwr o bob tîm yn prynu'r eitemau oddi wrth yr athro. Gadewch i un tîm ar y tro brynu un eitem ar y tro, er mwyn sicrhau bod yr eitemau ar gael yn deg i'r timau. Gadewch i ddysgwyr ffeirio pan fo hynny'n rhesymol. Ceisiwch gyfyngu ar nifer yr eitemau y mae pob grŵp yn eu prynu i annog dyluniad mwy creadigol. Fel athro, byddwch yn chwarae rhan y siopwr ac yn ymdrin â gwerthu eitemau i bob grŵp. Gyda phob pryniant, ychwanegwch y swm a wariwyd at y colofnau ar y bwrdd, i gyfrifo'r balans sy'n weddill.

# Diogelu'r wy - Cynllun gweithgaredd


| Amser | |
|---|---|
| 2-5 munud | **Rhoi wyau i bob tîm**<br>Os yw’n bosibl, ewch â’r timau a’u heitemau y tu allan, cyn rhoi’r wyau. |
| 20-30 munud | **Diogelu’r wyau**<br>Rhowch amser i bob tîm greu eu hatebion i ddiogelu eu hwyau, gan ddefnyddio’r eitemau maen nhw wedi’u prynu. |
| 15-30 munud | **Taflu/cicio wyau**<br>Fesul tîm, dylai’r athro daflu neu gicio’r wyau ar y maes chwarae.  Agorwch y pecyn yn ofalus i weld a yw’r wyau yn dal i fod yn gyfan.  Gwnewch nodyn cyn mynd yn ôl i’r ystafell ddosbarth i gymharu sgoriau. |
| 5 munud | **Cyfrifo cyfanswm**<br>Ychwanegwch nifer yr wyau sy’n gyfan at y colofnau ar y bwrdd a chydnabyddwch y tîm buddugol trwy roi cymeradwyaeth. |
| 20-45 munud | **Sesiwn gloi/casgliad**<br>Gofynnwch i’r dysgwyr gwblhau’r cardiau myfyrio.<br>Hefyd, manteisiwch ar y cyfle i dynnu sylw at rymoedd, sydd wedi’u harchwilio, a’u heffaith ar y dyluniadau.  A wnaeth y dysgwyr ystyried trawiad a disgyrchiant wrth ddylunio? Pa atebion dylunio wnaethon nhw feddwl amdanynt? Clustogi? Parasiwtiau? Amsugno sioc? |

## Amrywiadau/ehangu ar y gweithgaredd

Gellir disodli’r gwerthiant bwrdd gydag arwerthiant pan fydd gan ddysgwyr ddealltwriaeth gadarn o gyllidebau a phenderfyniadau prynu, i wneud penderfyniadau prynu da a chyflym.

Gellir cynnwys taflu’r wy mewn gweithgaredd addysg gorfforol, trwy ddefnyddio’r ‘pecynnau wyau’ ar gyfer gwahanol chwaraeon bach fel pêl-droed, tenis neu rygbi. I wneud hyn, caniatewch i’r dysgwyr brynu mwy o eitemau amddiffynnol, i gyfrif am y grym ychwanegol a fydd yn gweithio arnynt.

Gellir addasu cyllideb y tîm i gyd-fynd â’r lefel rhifedd sy’n briodol i’r dosbarth.



# Diogelu'r wy - Cynllun gweithgaredd

**Enw:**

Beth ydw i’n meddwl am y pethau a brynwyd gennym?

A gawsom **werth** da am ein **cyllideb**?

Pa mor dda wnaeth ein dyluniad weithio? A wnaeth e weithio fel yr oeddem ni’n ei ddisgwyl?

Beth oedd fy nhîm wedi ei wneud yn dda?

Beth oeddwn i wedi ei wneud yn dda?

Beth fyddwn i’n ei wneud yn wahanol y tro nesaf?

**Enw:**

Beth ydw i’n meddwl am y pethau a brynwyd gennym?

A gawsom **werth** da am ein **cyllideb**?

Pa mor dda wnaeth ein dyluniad weithio? A wnaeth e weithio fel yr oeddem ni’n ei ddisgwyl?

Beth oedd fy nhîm wedi ei wneud yn dda?

Beth oeddwn i wedi ei wneud yn dda?

Beth fyddwn i’n ei wneud yn wahanol y tro nesaf?